

## DIDDORDEB MEWN DOD YN WARCHODWR PLANT (SIR Y FFLINT)

---

### Pam Dewis Dod yn Warchodwr Plant Cofrestredig?

Os ydych yn teimlo'n angerddol ynglŷn â rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant ac os hoffech gael gyrfa sy'n cyd-fynd â'ch ymrwymadau teuluol yna gallai dod yn warchodwr plant cofrestredig fod yn ddewis delfrydol ichi. Fel gwarchodwr plant byddwch yn gwneud gwahaniaeth mewn sawl ffordd - datblygu eich sgiliau eich hun a'ch busnes eich hun, ac ar yr un pryd cynorthwyo plant, eu teuluoedd a gweithio fel rhan o'ch cymuned leol.

Er mwyn helpu i sicrhau mai gwarchodwr plant yw'r dewis cywir i chi, awgrymwn yn gyntaf eich bod yn mynychu Sesiwn Frifffio yn eich ardal. Os nad oes un ar gael yn lleol, mae'n bosibl cael mynediad i Sesiwn Frifffio yn gyflym ac yn hwylus gyda PACEY Cymru drwy webinar ac yng nghyfforddusrwydd eich cartref.

### Sesiynau Brifffio

Mae sesiynau brifffio PACEY Cymru wedi eu bwriadu ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn dod yn warchodwr plant cofrestredig. Nod y sesiwn hon yw rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol ichi gyda golwg ar y canlynol:

- sut i ddod yn warchodwr plant cofrestredig
- y broses gofrestru a'r gofynion
- hyfforddiant a chymorth sydd ar gael
- ffactorau sydd angen ichi eu hystyried cyn bwrw ymlaen
- beth yw eich camau nesaf

Yn ystod y sesiwn ceir digon o gyfleoedd ichi ofyn unrhyw gwestiynau. Mae mynychwyr blaenorol wedi dweud *"Roedd y sesiwn yn hynod o ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth. Diolch o galon ichi. Wnes i ddim newid fy meddwl ac rydw i am ddod yn warchodwr plant cofrestredig."*

### Dyddiadau ac amseroedd Sesiynau Brifffio:

6.30yn – 8yn Dydd Mercher, 13 Chwefror 2019

**Lle:** Canolfan Westwood, Stryd Tabernacle, Bwcle, CH7 2JT

### Cyrsiau Hyfforddi Cyn Cofrestru

Cyn ichi gyflwyno eich cais i gofrestru bydd angen i chi fod wedi cwblhau'r hyfforddiant cyn cofrestru gorfodol ar gyfer pob gwarchodwr plant yng Nghymru.

### Deall sut i sefydlu gwasanaeth gofal plant yn y cartref (CYPOP5)

Hwn yw'r hyfforddiant cyn cofrestru cydnabyddedig sy'n ofynnol er mwyn dod yn warchodwr plant cofrestredig. Yn ogystal â dysgu am agweddau perthnasol gofal plant, mae'r uned hon, sy'n seiliedig ar wybodaeth, yn cefnogi datblygiad polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i gofrestru, a'r sgiliau busnes sylfaenol ar gyfer sefydlu gwasanaeth gofal plant yn y cartref.

Mae hwn yn gwrs sy'n rhedeg dros 14 awr gyda chymorth Tiwtor profiadol. Mae Gwerslyfr y Cwrs yn gynwysedig. Asesiad yn digwydd drwy gyfrwng Prawf Aml Ddewis.

### **Dyddiadau ac amseroedd Hyfforddiant Cyn Cofrestru (CYPOP5):**

Cwrs hyfforddiant cyn-cofrestru CYPOP5 Dydd Sadwrn 9, 16, 23 Mawrth 2019 10yb–3.30yp.

Assesiad ar Dydd Mercher 27 Mawrth 2019 10yb–11yb.

**Lle:** Canolfan Westwood, Stryd Tabernacle, Bwcle, CH7 2JT.

I gael rhagor o wybodaeth neu i archebu eich lle, cysylltwch â PACEY Cymru yng Nghaerdydd ar 0845 880 1299.

### **I'r rhai sy'n byw yn Sir y Fflint:**

Mae'nna dâl o £ 50 tuag at yr hyfforddiant - bydd gweddill y cydbwysedd yn cael ei ariannu gan Gyngor Sir y Fflint. Bydd angen gwneud y taliad hwn i sicrhau eich lle ar y cwrs.

### **Dyddiadau ac amseroedd Gweithdy Cefnogaeth Cyn Cofrestru:**

6.30yn – 8.30yn Dydd Mercher 10 Ebrill & 1 Mai 2019.

**Lle:** Canolfan Westwood, Stryd Tabernacle, Bwcle, CH7 2JT.

Dywedodd dysgwyr blaenorol; *“Dewisais yr hyfforddiant wyneb yn wyneb oherwydd roeddwn i eisiau manteisio ar y rhyngweithio gyda'r tiwtor a'r disgyblion eraill. Roeddwn yn credu bod y math hwn o hyfforddiant yn amhrisiadwy ar gyfer dysgu dulliau newydd ac ar gyfer trafod gyda'r grŵp.”; “Roedd y tiwtor yn rhagorol, a gwnaeth hyn i mi ymlacio a theimlo'n hyderus. Roeddem yn gweithio drwy ddefnyddio trafodaethau agored fel bo pawb yn cael ei gynnwys, ac roedd popeth oedd yn cael ei drafod yn berthnasol”*

Gweithdy 4-awr ar gyfer ddarpar gwarchodwyr plant sydd am gyflwyno cais I AGC I gofrestri'n warchodwr plant yng Nghymru, sy'n cefnogi dysgwyr gyda'r broses ar gwaith papur sydd yn gysylltiedig a chyflwyno ffurflen gais AGC.

### **Gwybodaeth Archebu**

I gael rhagor o wybodaeth neu i archebu eich lle, cysylltwch â:

PACEY Cymru, Swyddfa Caerdydd



0845 880 1299



[paceycymru@pacey.org.uk](mailto:paceycymru@pacey.org.uk)

Y Swyddfa Ansawdd a Hyfforddiant ar gyfer eich ardal chi yw:

### **Joanne Morris, Swyddog Ansawdd a Hyfforddiant**



07734 734124



[joanne.morris@pacey.org.uk](mailto:joanne.morris@pacey.org.uk)